



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Beth mae angen i chi ei wybod am y strategaeth gwres i Gymru

Awst 2024



Beth mae angen i chi ei wybod am y strategaeth gwres i Gymru



**Chartered
Institute of
Housing**
Cymru

Cyflwyniad

Mae gan Gymru darged cyfreithiol rwymol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050. Datgarboneiddio gwres yw'r her fwyaf a wynebwr wrth sicrhau bod Cymru'n cyrraedd y targed sero net hwn.

Bydd y strategaeth gwres yn cyfeirio ymagwedd llywodraeth Cymru at ddatgarboneiddio gwresogi a dŵr poeth ar gyfer holl adeiladau Cymru. Ar hyn o bryd mae cynhyrchu a rheoli gwres ar draws pob adeilad a diwydiant yng Nghymru yn cyfrif am tua 50 y cant o gyfanswm y galw am ynni yng Nghymru. Allyriadau o'n cartrefi yw'r ail gyfrannwr mwyaf.

Mae darparu gwres glân, fforddiadwy a diogel wedi'i gysylltu'n gynhenid â chanlyniadau cadarnhaol i bobl a busnesau ar draws Cymru. Ac eto, bydd hyn yn gofyn am newidiadau systemig i'r ffordd yr ydym yn darparu ac yn defnyddio gwres yng Nghymru. Mae angen i hyn hefyd gynnwys gwella perfformiad thermol adeiladau presennol yng Nghymru. Mae cadwyni cyflenwi adeiladwaith a chynnal a chadw adeiladau'n allweddol ar gyfer datblygu datrysiadau ôl-osod arloesol ar ein hadeiladau presennol.

Mae'r strategaeth gwres yn nodi manteision canlynol sero net yng Nghymru:

- **Cynhesrwydd fforddiadwy:** Bydd gwella perfformiad cartrefi'n arwain at filiau ynni is a chartrefi mwy iach a chyfforddus.
- **Busnesau cydnerth:** Mae sylfaen ddiwydiannol bresennol Cymru yn darparu llwyfan i arwain y gwaith moderneiddio tuag at fod yn hyb diwydiannol carbon isel a gydnabyddir yn fyd-eang.
- **Swyddi a thwf gwyrdd:** Cyfleoedd cyflogaeth i'r gweithlu presennol, a'r gallu i ddenu doniau newydd, gan roi hwb i economïau lleol.
- **Aer glanach:** Bydd llai o allyriadau'n arwain at aer glanach ar draws trefi a dinasoedd, gan wella canlyniadau iechyd.

- **Diogelwch ynni:** Lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil wedi'i fewnforio drwy gynhyrchu lleol a diogel a fydd yn lleihau anweddolrwydd prisiau.

Ymagwedd llywodraeth Cymru

Y weledigaeth ar gyfer y strategaeth gwres yw:

Bydd gwres fforddiadwy glân ar gael i bawb - byddwn yn cydnabod y cyfle a ddaw yn sgil pontio ac yn sicrhau ein lles yn y dyfodol gydag economi carbon isel cynaliadwy.

Mae pum egwyddor sylfaenol sy'n cyd-fynd â hyn:

- **Sero net: Cyflawni ymrwymïadau sero net Cymru:** Canolbwyntio ar dechnolegau a gweithredoedd dim edifeirwch ac edifeirwch isel sy'n darparu arbedion carbon yn y tymor byr; ac ar yr un pryd yn annog arloesi, datblygu technoleg a chynllunio strategol tymor hwy.
- **Pontio cyfiawn: Tyfu'r farchnad ar gyfer swyddi cynaliadwy a chartrefi cynnes i bawb:** Galluogi datgarboneiddio gwres ar draws holl gartrefi a busnesau Cymru fel nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Dosbarthu costau a buddion y pontio'n deg ar draws cymdeithas, a chynyddu cyfleoedd gwaith da wrth gyflenwi.
- **Canolbwyntio ar y defnyddiwr: Cydnabod yr heriau ymarferol:** Grymuso gwneud y penderfyniadau cywir ar gyfer cartrefi a busnesau, heb danamcangyfrif effaith newid aflonyddgar, a pharhau i ymdrechu i gyflawni uwchraddio sy'n fwy fforddiadwy i bawb.
- **Cyfannol: Gweithio ar draws sectorau a manteisio ar fuddion ehangach:** Trosoli cyfleoedd i ysgogi cynnydd ar draws sectorau, annog cydweithredu a chyflawni newid effeithlon sy'n parhau. Cydnabod bod gwres yn effeithio ar iechyd y cyhoedd, gwasanaethau cymdeithasol a'r economi ehangach.

- **Ystwyth: Arloesi, profi, adolygu ac efelychu'n gyflym:** Darparu'r arweinyddiaeth i ysgogi gweithgarwch ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen, tra'n ymateb i arloesiadau newydd.

Y sectorau a'r cyfranogwyr

Mae'r strategaeth gwres wedi nodi'r sectorau a'r cyfranogwyr sy'n allweddol i bontio i wres sero net yng Nghymru.



Y sector cyhoeddus

Bydd swyddogion y sector cyhoeddus, â chefnogaeth ein Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, yn arwain y ffordd o ran dangos sut y gellir cyflawni sero net, gan baratoi'r farchnad gwres carbon isel.

Busnesau

Bydd pob busnes, o'r lleiaf i'r mwyaf, yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau ar ddatgarboneiddio gwres gyda'r nod o gyflawni biliau is a mwy cadarn dros y tymor hir.

Cartrefi

Bydd pob perchennog cartref, landlord cymdeithasol a landlord preifat yn cael eu grymuso i wneud y dewisiadau cywir i ddatgarboneiddio ein cartrefi. Bydd cartref cynnes yn fforddiadwy i bawb.

Diwydiant

Bydd busnesau diwydiannol yn arwain y ffordd yn y newidiad diwydiannol gwyrdd, gan barhau i fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni a newid i ddevisiadau amgen carbon isel.

Seilwaith

Bydd buddsoddiad hirdymor, strategol ac effeithlon mewn seilwaith grid yn cefnogi twf mewn gwres adnewyddadwy. Bydd gweithredwyr rhwydweithiau a chynllunwyr lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni uchelgeisiau lleol.

Y fframwaith galluogi

Rhai o'r sbardunau polisiau allweddol a amlinellir yn y strategaeth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y fframwaith pontio cyfiawn, ffyniant i bawb: cynllun gweithredu economaidd, cynllun gweithredu sero net, a Chymru'n arloesi. Mae'r rhain, ynghyd â'r amcanion a ganlyn, yn ffurfio rhan o'r fframwaith galluogi pontio i wres carbon isel.

Prosesau cynllunio tryloyw i gefnogi cyflwyno datrysiadau gwres carbon isel

Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan gynlluniau ynni ardal leol awdurdodau lleol a fydd yn edrych ar draws y system ynni gyfan ac yn nodi cyfleoedd i bontio i wres carbon isel ar lefel leol.

Bydd rheolau cynllunio ar gyfer pypmiau gwres hefyd yn cael eu hystyried am fod y rheolau presennol yn golygu y byddai angen caniatâd cynllunio llawn ar gyfer cyfran sylweddol o stoc adeiladau presennol Cymru.

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Cefnogi cyflwyno cynlluniau ynni ardal leol a hwyluso eu gweithrediad
- Sicrhau bod hawliau datblygu a ganiateir mewn rheolau cynllunio ar gyfer pypmiau gwres yn addas i'r diben.

Mae'r holl ddefnyddwyr gwres yn deall ac yn cefnogi gwres carbon isel

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Ymgysylltu â chartrefi i wella eu dealltwriaeth o wres carbon isel
- Adeiladu a rhannu gwybodaeth am y llwybr posibl i'r farchnad ar gyfer gwres, technolegau a phrosesau carbon isel
- Adolygu a rhannu ardystiad cadwyn gyflenwi ar gyfer datrysiadau gwres carbon isel i helpu adeiladu ymddiriedaeth rhwng perchnogion cartrefi a busnesau
- Parhau i hyrwyddo'r defnydd o fanylebau sydd ar gael yn gyhoeddus yn eu rhaglenni gwres carbon isel.

Mae ein gweithlu tra fedrus yn cefnogi cyflenwyr a chynhyrchwyr lleol i bontio i wres carbon isel

Mae'r grid cenedlaethol yn amcangyfrif y bydd ynni sero net yn gofyn am 25,000 o swyddi ychwanegol yng Nghymru erbyn 2050, ac o fewn hyn, amcangyfrifir y bydd angen 12,000 o weithwyr ychwanegol i gwrdd â gofynion gwelliannau ynni domestig yn unig.

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Defnyddio'r cynllun gweithredu sgiliau sero net i nodi'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi datrysiadau gwres carbon isel
- Parhau i ddenu doniau i'r sector gwres carbon isel
- Denu buddsoddiad trwy ddarparu sicrwydd a chyfleoedd tymor hir fel rhan o'r pontio
- Datblygu gwell dealltwriaeth o gadwyni cyflenwi presennol yng Nghymru gan nodi cyfleoedd i'w cefnogi i dyfu.

Mae costau'r pontio wedi'u dosbarthu'n deg, ac mae'r manteision yn cefnogi ein heconomi a'n cymunedau

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod costau gweithredol pypiau gwres o'u cymharu â boeleri nwy yn un o'r prif rwystrau i bontio. Mae sicrhau bod mecanweithiau prisio ynni'n cefnogi gwres carbon isel yn un o'r newidiadau hollbwysig sydd eu hangen i roi hwb i bontio ar raddfa fawr.

Mae hefyd yn bwysig defnyddio dull adeilad cyfan i leihau'r galw am ynni sylfaenol a fydd yn lleihau costau i ddefnyddwyr gwres. Efallai y bydd angen cefnogaeth ariannol a gweithredol ychwanegol ar aelwydydd sy'n agored i niwed i gynyddu lefel yr inswleiddio yn eu cartrefi.

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Nodi'r gefnogaeth ariannol a chefnogaeth arall sydd ei hangen i bontio'n decach i wres carbon isel
- Gweithio gyda llywodraeth y DU ar adolygu prisiau trydan yn y dyfodol o gymharu â nwy
- Gweithio gyda gweithredwyr rhwydwaith ardal i gefnogi mabwysiadu datrysiadau clyfar i leihau'r galw.

Gwella perfformiad ynni ein cartrefi

Priodolir bron i chwarter y defnydd o ynni yng Nghymru i wresogi gofod a dŵr yn ein cartrefi. Tanwyddau ffosil sy'n gyfrifol am y defnydd hwn mewn mwy nag 80 y cant o gartrefi, gan olygu mai gwresogi domestig yw'r brif ffynhonnell allyriadau yn genedlaethol.

Rhaid i ddatgarboneiddio ein stoc tai beidio â chreu canlyniadau anfwriadol a gwrthnysig megis lleihau opsiynau tai, codi costau rhent neu i'w wneud yn ffrainc i gael mynediad at gartrefi effeithlonrwydd uchel. Rhaid i'r pontio gynnwys pawb.

Fframwaith rheoleiddio clir sy'n cefnogi cartrefi sero net ar draws yr holl ddaliadaethau tai

Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar reoliadau posibl a fydd yn cefnogi datgarboneiddio gwres domestig drwy:

- Ostwng y galw am danwydd a biliau ynni drwy ysgogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni, adolygu safonau ar y pwynt gwerthu neu osod, ynghyd â chefnogi gwelliannau uchelgeisiol i'r stoc tai cymdeithasol
- Archwilio'r potensial ar gyfer gwaharddiad sy'n cyfyngu ar werthu systemau gwresogi tanwydd ffosil, gyda dyddiadau clir ar gyfer gweithredu datblygiadau newydd a datblygiadau presennol.

Bydd ymgysylltu â llywodraeth y DU yn allweddol i roi'r gofynion rheoleiddio ar waith. Bydd hyn yn golygu dylanwadu ar gynlluniau i wahardd boeleri nwy mewn adeiladau newydd erbyn 2025, a rhoi'r gorau i osod pob boeler nwy newydd yn raddol y tu hwnt i 2035.

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Parhau i hybu safonau trwy Ofynion Ansawdd Datblygu Cymru a Safonau Ansawdd Tai Cymru lle mae'n rhaid i bob cartref cymdeithasol newydd gyflawni EPC A, a bod yn rhaid i dai cymdeithasol presennol fod â llwybr ynni targed ar waith i gyflawni EPC A erbyn 2034, neu erbyn dyddiad ar ôl hynny y mae llywodraeth Cymru wedi'i awdurdodi

- Archwilio opsiynau i gyfyngu ar foeleri tanwydd ffosil mewn datblygiadau newydd a chyflymu'r broses o ddileu boeleri tanwydd ffosil yn raddol mewn anheddau presennol
- Ymchwilio i opsiynau ar gyfer defnyddio safonau perfformiad ynni ar y pwynt gwerthu neu osod fel mecanwaith i yrru'r defnydd o wres carbon isel.

Cartrefi sy'n effeithlon yn thermol ac wedi'u gwasanaethu gan bympiau gwres gan fabwysiadu ymagwedd adeilad cyfan at bontio

Yn rhannol oherwydd eu hoedran mae cartrefi Cymru ymhlith y rhai sy'n perfformio waethaf yn Ewrop. Ar hyn o bryd mae 34 y cant o gartrefi yng Nghymru wedi'u hadeiladu cyn 1929 ac mae gan 68 y cant ohonynt sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni D neu'n is. Mae lleihau'r galw am wres yn rhan allweddol o'r ateb ynghyd â defnyddio ffynonellau gwres carbon isel. Mae dros 85 y cant o gartrefi Cymru wedi'u gwasanaethu gan wres tanwydd ffosil a bydd angen eu cefnogi i bontio i ffynonellau gwres carbon isel.

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Rhoi cyngor a chefnogaeth i berchnogion cartrefi i newid i wres carbon isel
- Parhau i flaenoriaethu gwres carbon isel fel rhan o'r rhaglen cartrefi cynnes
- Cefnogi landlordiaid cymdeithasol i gyflwyno rhaglen ôl-osod wedi'i optimeiddio ac archwilio opsiynau tymor hwy i helpu landlordiaid cymdeithasol i gyflawni EPC A
- Rhannu arfer gorau ar sut y gall adeiladau ag adeileddau hanesyddol a thraddodiadol ddatgarboneiddio gwres yn effeithiol
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno mesuryddion clyfar
- Archwilio sut y gall y sector perchenfeddianwyr a'r sector rhentu preifat bontio i wres carbon isel.

Bydd datrysiadau gwres carbon isel yn fforddiadwy i'w gosod ac yn fforddiadwy i'w gweithredu

Mae pontio i dechnolegau glân hefyd yn ymwneud â phontio i systemau gwresogi mwy

effeithlon, mwy integredig a mwy clyfar ac yn gyfle i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru. I wneud hynny, rhaid i systemau gwresogi carbon isel fod yn fforddiadwy i'w prynu a bod â chostau gweithredu is o gymharu â systemau presennol.

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â rhwystrau ariannol ar gyfer datrysiadau gwres carbon isel ar draws y sector domestig
- Gweithio gyda banc datblygu Cymru i hyrwyddo dull cartref cyfan o ddatrysiadau gwres carbon isel fel rhan o'i gynigion cyllid datblygu tai
- Ystyried opsiynau ar gyfer cyllid pellach i landlordiaid cymdeithasol i gyflawni EPC A ar draws yr holl gartrefi.

Arwain y ffordd gyda gwasanaethau cyhoeddus

Ynghyd â darparu gwasanaethau mae gan gyrff cyhoeddus rôl arweiniol i'w chwarae wrth bontio i ddyfodol sero net. Mae ganddynt rôl bwysig o ran galluogi gwres carbon isel ar draws pob sector yng Nghymru gydag awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau cynllunio sydd eu hangen i roi pontio ar waith.

Bydd y sector cyhoeddus yn gweithio tuag at sero net erbyn 2030 ac yn cefnogi cyflwyno'n rhanbarthol ac yn lleol

Yn benodol, mae gan awdurdodau lleol rôl arweiniol bwysig i'w chwarae. Nhw sy'n pennu'r polisi cynllunio ar gyfer eu hardal, ac mae eu dull o redeg y swyddogaeth gynllunio'n bwysig i'r cyfnod pontio ar draws yr holl sectorau. Mae awdurdodau lleol hefyd yn arwain cynlluniau



ygni ardal leol gan weithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill, cymunedau, busnesau a darparwyr ynni i nodi cynllun strategol ar gyfer y system ynni. Bydd angen parhau â'r rôl arweinyddiaeth hon a hefyd adeiladu momentwm pellach.

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Cyfathrebu llwyddiant a rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws cyrrff cyhoeddus ac i sectorau ehangach
- Sicrhau bod y sector cyhoeddus yn hybu datgarboneiddio ar y cyd yn rhanbarthol ac yn lleol trwy gynllunio ynni
- Ceisio adeiladu cadwyni cyflenwi lleol, tyfu sgiliau a gwireddu gwerth cymdeithasol trwy waith y sector cyhoeddus o bontio i wres carbon isel.

Bydd holl adeiladau'r sector cyhoeddus yn cael eu gwasanaethu gan ddatrysiadau gwres carbon isel sy'n hyrwyddo dull adeilad cyfan o bontio

Bydd angen i gyrff cyhoeddus gynllunio, ystyried a chefnogi pontio cyfiawn, gan gydnabod y manteision llesiant yng Nghymru fel rhan o bontio i wres carbon isel. Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i gyrff cyhoeddus gefnogi economi Cymru. I helpu hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio cyfleoedd ar gyfer fframweithiau caffael i Gymru sy'n hyrwyddo cadwyn gyflenwi Cymru.

Cyflwyno'r amcan

Bydd Llywodraeth Cymru'n:

- Cefnogi cyrrff cyhoeddus drwy hwyluso mynediad at gyllid i gyflawni prosiectau gwres carbon isel sy'n heriol yn ariannol
- Adolygu opsiynau cyllido i gefnogi sector cyhoeddus sero net erbyn 2030
- Archwilio datrysiadau ymarferol ar gyfer caffael cyhoeddus er mwyn adeiladu capasiti'r farchnad
- Adeiladu capasiti i ddarparu dull adeilad cyfan o ddefnyddio gwres carbon isel.

Rhwydweithiau ynni, seilwaith, busnes a diwydiant

Er ei bod yn bosibl na fydd llawer o'r amcanion a'r canlyniadau allweddol sy'n ymwneud â'r sectorau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y sector tai yng Nghymru, mae yna rai a fydd yn hanfodol i sicrhau dull Cymru gyfan fel rhan o bontio'n gyfiawn i Gymru sero net.

Rhwydweithiau a seilwaith ynni

Mae Llywodraeth Cymru am ddefnyddio rhwydweithiau gwres ar draws Cymru i ddarparu gwres carbon isel mewn ardaloedd addas. Bydd hyn yn defnyddio'r dystiolaeth o'r cynllun ynni ardal leol i nodi cyfleoedd ar gyfer cynllunio rhwydweithiau gwres ar sail parthau. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda'r rhwydweithiau i alinio cynlluniau rhwydwaith ag uchelgeisiau lleol i gefnogi gwres trydan fel rhan o'r system ynni sero net.

Busnes

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i baratoi map tuag at reoleiddio er mwyn deall y rhwystrau deddfwriaethol a goblygiadau dileu gosodiadau boeleri nwy newydd yn raddol mewn eiddo masnachol erbyn 2033. Byddant hefyd yn archwilio'r defnydd o dechnolegau ynni adnewyddadwy ar y safle i gynorthwyo cost-effeithiolrwydd pontio i wres carbon isel ar gyfer busnesau. Caiff arfer gorau o ran rôl gwres carbon isel ar gyfer busnes cynaliadwy yng Nghymru ei rannu er mwyn magu hyder mewn pontio.

Diwydiant

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi diwydiant yng Nghymru i gyrchu'r cyllid ac opsiynau cefnogi eraill sydd ar gael i'w alluogi i bontio i wres carbon isel fforddiadwy. Bydd hyn yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i drosoli cyllid o ffrydiau ariannu DU. Bydd canolfannau hydrogen hefyd yn cael eu sefydlu i edrych ar ffyrdd o gefnogi arloesedd er mwyn i Gymru elwa o'r cyfle ar gyfer economi werdd.

Costau ac arbedion

Mae pwyllgor newid hinsawdd annibynnol y DU wedi amcangyfrif mai £80 biliwn yw cyfanswm cost datgarboneiddio gwres yng Nghymru dros y cyfnod hyd at 2050. Dyma gyfanswm y gost a bydd angen i lawer o ddefnyddwyr adnewyddu eu seilwaith gwres cyn 2050. Dangosir y costau ar gyfer pob sector isod:

Sector	Disgrifiad	Graddfa'r her	Buddsoddiad hyd at 2050 (% sy'n ychwanegol)
Domestig	Tai Cymdeithasol	~223,000 o gartrefi	£56.7 biliwn ⁷ (23%)
	Preifat: Rhent	~231,000 o gartrefi	
	Yn Eiddo i Berchenfeddianwyr	~895,000 o gartrefi	
Y Sector Cyhoeddus	Awdurdodau lleol, iechyd a chyryff cyhoeddus eraill	~4000 o safleoedd	£1 biliwn
Busnesau	Celfyddydau, Cymuned a Hamdden	~ 3,800 o adeiladau	£3.2 biliwn ⁷
	Lletygarwch	~ 14,400 o adeiladau	
	Swyddfeydd	~ 17,000 o adeiladau	
	Siopau	~ 27,000 o adeiladau	
	Warysau ac Eraill	~ 21,000 o adeiladau	
Diwydiant	Gweithgynhyrchu	~6,785 o fentrau	£20 biliwn ⁷ (14%)


Bydd arbedion hefyd yn cael eu gwireddu ar draws cymdeithas. Amcangyfrifir y gallai rhaglen gwerth £15 biliwn dros 10 mlynedd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ddarparu arbedion cronus o £8.4 biliwn mewn biliau ynni i aelwydydd hyd at 2040 gyda £3.54 biliwn o fudd net o ran treth a 26,500 o swyddi newydd.

Amcangyfrifir bod amodau tai gwael yn costio £95 miliwn i'r GIG yng Nghymru oherwydd yr effaith negyddol ar iechyd unigolyn. Trwy wella effeithlonrwydd ynni ac ansawdd ein cartrefi gallwn wella canlyniadau iechyd gan leihau'r baich costau ar y GIG.

Amserlen ar gyfer newid

Mae'r strategaeth wres yn nodi llwybr allyriadau hyd at 2035 gyda cherrig milltir dangosol fel y nodir isod:

Mae Llywodraeth Cymru'n glir, wrth gynllunio eu dull o bontio i wres carbon isel, y bydd yn sicrhau pontio cyfiawn ar draws Cymru nad yw'n gadael neb ar ôl.



Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r strategaeth gwres, a'r trosolwg manwl o'r gwaith y bydd Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi pob sector yng Nghymru i bontio i wres carbon isel. Rydym hefyd yn croesawu'r amlinelliad o'r cyllid sydd ei angen i sicrhau y gallwn bontio'r cartrefi yr ydym yn byw ynddynt i wres carbon isel. Fodd bynnag, nid yw'n glir yn y strategaeth pa gyllid fydd ar gael i'r sector perchen-feddianwyr. Perchen-feddianwyr yw daliadaeth tai fwyaf Cymru. Mae'n hanfodol i ni ddarparu cymhellion a chefnogaeth i'r ddaliadaeth hon i gychwyn ar y daith ddatgarboneiddio a symud i ddatrysiadau gwresogi gwyrdd i ysgogi cyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen arnom i gyflawni nodau gwresogi carbon isel. Os gallwn gael yr elfen hon o'r sector tai yn iawn, bydd yn lleihau costau marchnad ar gyfer gosod datrysiadau gwresogi gwyrdd. Rhywbeth y gall pawb yn y sector domestig elwa ohono. Rhan o'r ateb hwn yw'r gwaharddiad ar wresogi tanwydd ffosil a gynigir yn y strategaeth, ond rhaid monitro hyn yn ofalus.

Mae'r strategaeth yn amlinellu y bydd y sector tai cymdeithasol yn cael ei gefnogi gan y rhaglen ôl-osod wedi'i optimeiddio sy'n darparu cyllid i ddatgarboneiddio ein stoc tai cymdeithasol presennol. Yn ôl adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cartrefi Addas i'r Dyfodol: Yr Her Ôl-osod (a gyflawnwyd gan New Economics Foundation), mae bwlch ariannu o £2.7 biliwn yn y swm sydd ei angen i ôl-osod tai cymdeithasol a bwlch o £3.9 biliwn i ôl-osod cartrefi sydd mewn tloedi tanwydd yng Nghymru. Mae'n mynd ymlaen i

ddweud mai cyfanswm y buddsoddiad sydd ei angen dros y deng mlynedd nesaf i ôl-osod y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yw £5.52 biliwn (£4.82 biliwn i ôl-osod cartrefi mewn tloedi tanwydd) gyda thua £1.7 biliwn o hwnnw'n dod o Lywodraeth Cymru a £3.6 biliwn o San Steffan.

Ac eto, dim ond £92 miliwn a ddyrannwyd yn y gyllideb ar gyfer 2024/25 i ddatgarboneiddio ein cartrefi cymdeithasol drwy'r rhaglen ôl-osod wedi'i optimeiddio. Bydd angen llawer mwy o arian ar gyfer y rhaglen ôl-osod wedi'i optimeiddio os ydym am gyrraedd y targedau datgarboneiddio.

Bu'n siom i ni weld diffyg gweithredu, ar wahân i sicrhau bod ein cartrefi'n effeithlon yn thermol, yn ymwneud â chartrefi'n mynd yn rhy boeth yn yr haf. Er mwyn lleihau'r defnydd o ynni mewn cartrefi, defnyddir dull adeilad cyfan sydd yn bennaf yn dibynnu ar inswleiddio ein cartrefi. Ond yn yr haf mae'r un inswleiddio hwn yn gorboethi llawer o'n cartrefi, felly mae angen ystyried yn ehangach sut y gallwn sicrhau gwresogi carbon isel effeithiol yn y misoedd oerach ac oeri ein cartrefi'n effeithiol yn y misoedd cynhesach.

Er i ni groesawu'r strategaeth hon, mae angen i ni sicrhau hefyd y darperir y lefelau cywir o gyllid i ddatgarboneiddio ein darpariaeth gwres ar draws Cymru. Gwyddom fod gwres carbon isel yn rhan hanfodol o ymagwedd Cymru gyfan at sicrhau y gallwn gyrraedd ein targedau allyriadau sero net, ond rhaid i'n lefelau ariannu gyfateb i'n huchelgais fel y gall pawb weithio tuag at Gymru werdd a chynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

